

Y newyddion diweddaraf a'r cynnydd gan y Tîm Systemau

Y TU MEWN

Newydd yn y rhifyn hwn

Uwchraddio meddalwedd
Uned4 ERP ar y safle i 7.15

Gwelliannau mewn Riportio

Beth nesaf?

Planner



Newydd yn y rhifyn hwn

Croeso i'r trydydd rhifyn o lythyrau newyddion rheolaidd ar gynnydd taith Uned4 ERP CSC i'r Cwmwl.

Mae'r gwaith paratoi i alluogi mudo i'r cwmwl yn parhau. Mae'r gwaith wedi dechrau o uwchraddio meddalwedd Uned4 ERP ar y safle i'r fersiwn ddiweddaraf cyn mudo i'r cwmwl.

Mae fersiwn brawf o fersiwn meddalwedd Uned4 ERP ddiweddaraf 7.15 wedi'i chreu a'i llwytho â data diweddar. Mae ar gael i randdeiliaid allweddol ei phrofi. Mae asesiad cychwynnol wedi datgelu'r gwelliannau canlynol:

1. Porwr Gwybodaeth
2. CThEF yn y we
3. Ymarferoldeb llawn yn y Porwr Gwybodaeth
4. Croniadau ar gyfer cyfnodolion
5. Gwelliant o ran llwytho dogfennau
6. Mwy o ymarferoldeb yn y we

Pan fydd y gwaith uwchraddio wedi'i gwblhau, sicrhewch eich bod chi'n dod yn gyfarwydd â'r rhyngwyneb gwe. Bydd angen i bob defnyddiwr swyddfa gefn fod yn defnyddio'r we yn llawn cyn i'r mudo i'r cwmwl ddigwydd.

Bydd uwchraddio'r system fyw ar y safle'n digwydd ar 13 ac 14 Hydref 2025. Ni fydd y system ar gael ar y diwrnodau hynny.



Gwelliannau mewn Riportio

Mae'r Porwr Gwybodaeth yn fodiwl newydd sydd ar gael yn y we a fydd yn rhoi llawer mwy o hyblygrwydd i'r defnyddiwr o ran riportio. Yn hytrach na dibynnu ar adroddiadau porwr wedi'u gosod ymlaen llaw, bydd y defnyddwyr yn gallu ychwanegu/cuddio colofnau data, a bydd defnyddwyr mwy datblygedig yn gallu creu adroddiadau pwrpasol.

Beth allwch chi ei wneud i baratoi ar gyfer mudo i'r cwmwl?

Er mwyn mudo i'r cwmwl, mae'n rhaid bod y defnyddwyr yn defnyddio'r fersiwn we o Uned4 ERP. Os ydych chi dal yn defnyddio'r hen fersiwn swyddfa gefn, cyfarwyddwch â'r rhyngwyneb gwe nawr, mae eisoes ar gael. Peidiwch ag aros nes ei fod yn dod i ben!

Cwestiynau?

Beth sy'n digwydd gydag EDIRFS?

Mae defnyddwyr yr hen ddull Cais Anfoneb Dyledwr Electronig (EDIRFS) o godi anfonebau dyledwyr trwy'r fewnwyd yn cael eu symud i'r system hunanwasanaeth yn uniongyrchol ar system Uned4 ERP erbyn 14 Tachwedd.

Pryd bydd y mudo i'r cwmwl yn digwydd?

Y nod yw cwblhau'r mudo i'r cwmwl ei hun erbyn diwedd 2026.



Beth nesaf?

Rydym yn uwchraddio'r modiwl cyllidebu a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer llwytho a chynnal cyllidebau. Gelwir y modiwl cyllidebu newydd yn **Planner** ac mae'n rhaid ei weithredu cyn mudo i'r cwmwl.

Rydym hefyd yn profi ac yn asesu modiwl newydd o'r enw Incoming Invoices, sy'n broses anfonebau unedig yn lle'r prosesau anfonebau prynu a chyflenwyr sydd ar wahân ar hyn o bryd. Bydd hyfforddiant defnyddwyr a gweithredu ar gyfer staff sy'n prosesu anfonebau yn dilyn.

Cysylltwch â ni drwy e-bost yn:

CRFinanceSystems@Carmarthenshire.gov.uk